**APPENDIX 1**

**Lesley Griffiths AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf : Our ref : QA1282787

Cllr Hugh Evans and Dr Mohammed Mehmet
Leader and Chief Executive of
Denbighshire County Council
County Hall
Wynnstay Road
Ruthin
LL15 1YN

December 2017

Dear Hugh and Mohammed

**Invitation to prepare a Joint Local Development Plan (LDP) North Wales - Central**

It is almost 14 years since the Planning and Compulsory Purchase Act (2004) introduced the requirement for Local Planning Authorities to prepare, monitor and keep review Local Development Plans. Progress has been made with 20 adopted LDPs in place.

The latest round of LDP Annual Monitoring Reports, submitted in October, has demonstrated mixed success for plans adopted between 2010 and 2015. This is particularly evident for critical planning outcomes, including supporting the delivery of housing in sustainable locations. With this in mind, it is right to pause and reflect on the correct path to take to maintain effective LDP coverage ahead of adoption of a Strategic Development Plan (SDP) for the region. It is also necessary to provide an robust framework for the delivery of the land use implications of the emerging North Wales Growth Deal proposals.

The role of the planning system in delivering excellent outcomes for Wales at national, regional and local levels has never been more prominent. Our newly adopted National Strategy: Prosperity for All acknowledges the key role the planning system must play by recognising planning decisions as a critical lever to deliver the central goal of prosperity for all. It notes planning decisions affect every area of a person's life. They determine where homes are built, where services are provided, the quality of the local environment, the promotion of sustainable economic growth and access to open space. The right planning system is critical in delivering the objectives of the strategy – this includes ensuring better LDPs are produced in the future.

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*

*Printed on 100% recycled paper*

Our vision for LDPs is not just to have full plan coverage, but achieve this in the most effective and efficient way, whilst also making a real difference for people and places. This does not mean replicating the procedures of the past, such as preparing plans on an individual basis. Often this has led to lengthy timescales for preparing plans, numerous delays in the process, a lack of effective consideration for issues transcending administrative boundaries and a difficulty in demonstrating the benefits of the system. The average time taken to prepare a first generation LDP was almost 6½ years which is totally unacceptable and cannot be replicated in the future. Evidence for the Planning (Wales) Bill demonstrated the cost of preparing a LDP to be between £1.4 and £2.2 million. Since then local government expenditure on planning services declined by 53% between 2009/10 and 2016/17 as a result of the UK Government austerity programme imposed on Wales with many of these reductions borne by your LDP teams. I do not believe many authorities currently have the capacity, capability or resilience necessary to progress LDPs on an individual authority basis.

For the reasons identified above we must approach the future with a new outlook, embracing the benefits from undertaking Joint LDPs. Maximising efficiency savings, both staffing and financial; delivering better outcomes on a more consistent basis; reaping the financial benefits through economies of scale and avoiding the pitfalls of duplication and repetition are all there to be seized. For the North Wales - Central area there are significant opportunities and challenges. These include increasing productivity and prosperity, creating opportunities for, and retaining young people within local communities. To complement increased economic activity, ensuring a portfolio of market responsive, well-serviced, readily available development sites that meet the needs of local communities and inward investors will be essential. Growth should capitalise on the opportunities arising from the 'A55 corridor', including rail and the regeneration of coastal towns and ports. The resilience and longevity of market towns and the rural hinterland should also be addressed. Preparing for Brexit by facilitating the creation of sustainable rural communities and ensuring the planning system supports the objectives of Cymraeg 2050 will be necessary to address agricultural changes in the rural hinterland, as well as the strong cultural identity of the region.

This approach aligns with emerging Local Government Reform proposals and stated intention of local government to work more collaboratively in the future. For the compelling reasons set out in this letter. I invite you to give serious consideration to improving the effectiveness of the planning system by preparing a Joint Local Development Plan. I am seeking positive responses to this invitation by the **28 February 2018**. Until such time I will not agree any plan progressing individually.

Yours sincerely,

**Lesley Griffiths AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs

Leader and Chief Executive Conwy County Borough Council

**Lesley Griffiths AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf : Our ref: QA1282787

Cyng. Hugh Evans a Dr Mohammed Mehmet
Arweinydd a Phrif Weithredwr
Cyngor Sir Ddinbych,
Ffordd Wynnstay,
Rhuthun,
LL15 1YN

13 Rhagfyr 2017

Annwyl Hugh a Mohammed

**Gwahoddiad i baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd i Ogledd Cymru - Canolog**

Mae bellach yn bron i 14 mlynedd ers i'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004) gyflwyno'r gofyniad i Awdurdodau Cynllunio Lleol baratoi, monitro ac adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae cynnydd wedi'i wneud gydag 20 o'r Cynlluniau Datblygu Lleol wedi'u sefydlu.

Mae'r cylch diweddaraf o Adroddiadau Monitro Blynyddol Cynlluniau Datblygu Lleol, a gyflwynwyd ym mis Hydref, wedi dangos mai llwyddiant cymysg fu i'r cynlluniau a fabwysiadwyd rhwng 2010 a 2015. Mae hyn yn arbennig o amlwg o ran canlyniadau cynllunio critigol, gan gynnwys cefnogi'r broses o ddarparu tai mewn lleoliadau cynaliadwy. Gan gadw hyn mewn cof, mae'n iawn i oedi ac i ystyried y llwybr iawn i'w gymryd i sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Lleol effeithiol wedi'u sefydlu cyn mabwysiadu Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y rhanbarth. Mae hefyd yn angenrheidiol i ddarparu fframwaith cadarn i gyflawni'r goblygiadau o ran defnydd tir ar gyfer cynigion newydd Bargen Twf y Gogledd.

Nid yw swyddogaeth y system gynllunio o ddarparu canlyniadau gwych i Gymru ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol erioed wedi bod mor amlwg. Mae ein Strategaeth Genedlaethol sydd newydd ei mabwysiadu: Ffyniant i Bawb yn cydnabod swyddogaeth allweddol y system gynllunio trwy gydnabod penderfyniadau cynllunio fel dulliau hollbwyisg o ddarparu'r nod canolog o ffyniant i bawb. Mae'n nodi bod penderfyniadau cynllunio yn cael effaith ar bob agwedd ar fywyd person. Maent yn penderfynu ble y caiff cartrefi eu hadeiladu, ble y darperir gwasanaethau, ansawdd yr amgylchedd leol, hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy a mynediad at fannau agored. Mae'r system gynllunio iawn yn hollbwysig wrth ddarparu amcanion y strategaeth - mae hyn yn cynnwys sicrhau bod Cynlluniau Datlbygu Lleol gwell yn cael eu creu at y dyfodol.

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100*

Ein gweledigaeth ar gyfer y Cynlluniau Datblygu Lleol yw nid yn unig sicrhau bod y cynllun yn gyflawn, ond cyflawni hyn yn y dull mwyaf effeithiol ac effeithlon, ac ar yr un pryd wneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl ac i leoedd. Nid yw hyn yn golygu defnyddio gweithdrefnau'r gorffennol eto, megis paratoi cynlluniau unigol. Mae hyn yn aml wedi arwain at amserlenni maith ar gyfer paratoi cynlluniau, oedi mawr yn y broses, diffyg ystyriaeth effeithiol ar gyfer materion sy'n mynd ar draws ffiniau gweinyddol ac anawsterau wrth ddangos manteision y system. Yr amser cyfartalog sydd wedi'i gymryd i baratoi Cynllun Cyflenwi Lleol cenhedlaeth gyntaf oedd bron 61/2 mlynedd sy'n hollol annerbyniol ac ni all hyn ddigwydd yn y dyfodol. Mae'r Dystiolaeth ar gyfer y Bil Cynllunio (Cymru) yn dangos bod y gost o baratoi Cynllun Cyflenwi Lleol rhwng £1.4 a £2.2 miliwn. Ers hynny mae gwariant llywodraeth leol ar wasanaethau cynllunio wedi gostwng 53% rhwng 2009/10 a 2016/17 o ganlyniad i raglen cyni Llywodraeth Prydain a orfodwyd ar Gymru, gyda nifer o'ch timau ar gyfer y Cynlluniau Datblygu Lleol yn gorfod wynebu'r gostyngiadau hyn. Nid wyf yn credu bod gan nifer o awdurdodau y capasiti ar hyn o bryd, y galluogrwydd na'r cadernid sydd ei angen i ddatblygu Cynlluniau Datblygu Lleol ar gyfer awdurdodau unigol.

Am y rhesymau a nodir uchod, mae'n rhaid inni wynebu'r dyfodol gyda syniadau newydd, gan groesawu manteision cynnal Cynlluniau Datblygu Lleol ar y cyd. Mae sicrhau cymaint â phosib o arbedion effeithlonrwydd, o ran staff ac yn ariannol; darparu canlyniadau gwell yn fwy cyson; cael y manteision ariannol drwy arbedion maint ac osgoi dyblygu ac ail-adrodd i gyd yn bethau y gellir manteisio arnynt. Ar gyfer ardal Gogledd Cymru - Canolog mae cyfleoedd a heriau mawr. Mae'r rhain yn cynnwys gwella cynhyrchiant a ffyniant, creu cyfleoedd ar gyfer cymunedau lleol a chadw pobl ifanc ynddynt. I ategu'r cynnydd mewn gweithgarwch economaidd, bydd sicrhau portffolio o safleoedd datblygu sy'n ymateb i'r farchnad, yn cael eu gwasanaethu'n dda, yn hawdd eu cael ac sy'n bodloni anghenion y cymunedau lleol a buddsoddwyr mewnol fel ei gilydd yn hanfodol. Dylai'r twf fanteisio ar y cyfleoedd sy'n codi o 'goridor yr A55', gan gynnwys rheilffyrdd ac adfywio trefi a phorthladdoedd arfordirol. Dylid hefyd mynd i'r afael â chadernid a hirhoedledd trefi marchnad a chefn gwlad. Bydd yn angenrheidiol i baratoi ar gyfer Brexit drwy hwyluso'r broses o greu cymunedau gwledig cynaliadwy, a sicrhau bod y system gynllunio yn cefnogi amcanion Cymraeg 2050, er mwyn mynd i'r afael â newidiadau amaethyddol yng nghefn gwlad, yn ogystal â hunaniaeth ddiwylliannol gref y rhanbarth.

Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â chynigion Diwygio Llywodraeth Leol, a bwriad llywodraeth leol i gydweithio mwy yn y dyfodol. Oherwydd y rhesymau cymhelliol a nodwyd yn y llythyr hwn. Rwy'n eich gwahodd i ystyried o ddifri gwella effeithiolrwydd y system gynllunio drwy baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Rwyf am dderbyn ymatebion positif i'r gwahoddiad hwn erbyn **28 Chwefror 2018.** Tan hynny ni fyddaf yn cytuno datblygu unrhyw gynllun yn unigol.

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig Cabinet Secretary for Economy and Transport

Arweinydd a Phrif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy